# Cystadleuaeth Gwobr Goffa Richard a Wyn

Cafwyd noson arbennig yng Nghanolfan Hermon ar ddydd Miwsig Cymru eleni, sef Chwefror 9fed pan gynhaliwyd cystadleuaeth Gwobr Goffa Richard a Wyn am yr ail waith. Cystadleuaeth i goffhau'r ddau frawd o'r band Ail Symudiad yw hwn er mwyn annog cerddorion newydd, ifanc i berfformio yn unigol neu mewn band yn y Gymraeg. Mae pwyllgor Gŵyl Fel ‘Na Mai yn grediniol y bydde Richard a Wyn yn falch o'r digwyddiad, yn enwedig o gofio am eu diddordeb, eu brwdfrydedd a'u hangerdd wrth feithrin ac hyrwyddo talent newydd.

Cyflwynydd y noson oedd Ffion Emyr, cantores o fri o Gaernarfon a chyflwynwraig llawn bwrlwm ar Radio Cymru. Roedd safon yr holl gystadleuwyr yn arbennig a chafodd bob un ganmoliaeth uchel gan y beirniaid - Dafydd Jones, Osian Jones ( meibion Richard ) Cleif Harpwood a Mei Gwynedd. Roedd hi'n hyfryd clywed beirniadaeth gadarnhaol, garedig a phositif am eu perfformiadau o'r llwyfan ac roedd y cystadleuwyr, yn ogystal â'r gynulleidfa yn gwerthfawrogi'r adborth a roddwyd gan Cleif ar ran ei gyd-feirniaid.

## ***Dyma sylwadau Panel y Beirniaid***

***Noson o adloniant pur â blesiodd cynulleidfa frwd ynghyd â’r panel o feirniaid.***

***Calonogol oedd clywed cynifer o ganeuon gwreiddiol cofiadwy gan y cystadleuwyr.***

***Amlygwyd nifer o dalentau newydd y bydd sôn a galw mawr amdanynt yn y dyfodol.***

***Crynodeb***
*Y cyntaf i’r llwyfan oedd y canwr gyfansoddwr **Jonathan Thomas** o Aberteifi. Peth mawr yw agor noson gystadleuol fel hon, ond fe glosiodd y gynulleidfa ato’n syth. Fe berfformiodd bedair o ganeuon i gyd, y cyfan yn wreiddiol ac yn gymysgedd o faledi a chaneuon rhythmig i gyfeiliant gitâr acwstig a thrydan. Defnyddiwyd trac cefndir o’i eiddo ar gyfer y gân gyntaf.; enghraifft o’i fedusrwydd a’i allu technegol. Perfformiad da iawn ar y cyfan gyda nifer o gytgannau a geiriau cofiadwy, yn enwedig y gân ddi-enw. Offerynwr digon medrus a llais da, rhywun a fyddai’n siwtio digwyddiad mewn tafarn neu neuadd gymunedol i’r dim, (ac mae perfformwyr felly yn bwysig i’r diwylliant Cymraeg yn lleol ac yn genedlaethol), ond mae’r gallu ganddo i esgyn i lwyfannau mwy.*

*Yr ail i ymddangos oedd **Tigs**, neu Teigyn Nashman o Goleg Penfro. Fe berfformiodd ddwy gân, un yn gyfieithiad o ‘Riptide’ gan Vance Joy, ac yna ‘Diwrnod Shwmae’, cyfansoddiad gwreiddiol gan y berfformwraig ei hun. Roedd yn artist llawn cymeriad, yn wên o glust i glust a’i phersonoliaeth yn goleuo’r llwyfan. Llais hynod o swynol ac unigryw, geirio eglur a chwarae medrus ar y gitâr. Cyflwyniad cynnes ac egnïol - roedd cytgan yr ail gân yn hynod o gofiadwy. Chwa o awyr iach oedd gweld dysgwraig frwdfrydig fel Teigyn ar lwyfan y gystadleuaeth. Roedd y panel yn unfryd y dylid mentora artistiaid naturiol dalentog fel hyn â’u cynorthwyo i loywi cynnwys ynghyd â pherfformiad. Dyma Heather Jones’ a Kizzy Crawfords y dyfodol.*

*Y trydydd o’r artistiaid unigol a ymddangosodd ar lwyfan Hermon, oedd **Danny Sioned**, un a fagwyd ym Mro Preseli, ond sydd erbyn hyn yn byw ym Mhontarddulais. Dyma artist newydd oedd yn medru dal sylw cynulleidfa. Pedair o ganeuon gwreiddiol campus, dwy yn faledi llond afiaith a dwy yn ganeuon teimladwy. Mae Danny yn benthyg o brofiadau personol yn ei chyfansoddi, ac roedd ei baled ‘Macsen’ yn gân hyfryd a thrawiadol. Traddododd hanes cyfarfod â ffermwr unig, tra’n gweini mewn tafarn leol, yn ei chân ddifyr ‘Gwaelod y gwydr’, Dyma gân gafodd argraff ar y beirniaid. Roedd Danny yn gwbwl gartrefol ar lwyfan, yn hyderus a phroffesiynol ac yn cyfathrebu’n rhwydd â’i chynulleidfa. Yn ddiamau hi feddai ar lais gorau’r noson. Roedd ei chwarae’n fedrus a’i*

*chyfansoddiadau yn ddiddorol, er byddai'n llesol iddi hi hefyd fanteisio ar fentor i loywi ychydig ar eu cynnwys, ond mater bach fydde hynny. Awgrym y panel yw y dylai pob trefnydd adloniant yn Ne Orllewin Cymru a thu hwnt afael yn ei rhif cyswllt.*

*Er mawr siom i'r panel, dim ond un grwp a fentrodd i lwyfan y gystadleuaeth eleni, ond am berfformiad meistrolgar gan* ***Gelert****. Doniau offerynol campus a chyfansoddi graenus, yn gerddorol ac o ran cynnwys geiriau. Perfformiad hynod o dechnegol drwyddi draw ond fe brofodd hyn yn wendid ym marn nifer o'r panel yn enwedig yn y ddwy gân gyntaf. Er cryfed y chwarae cymleth ac ambell riff cofiadwy, 'roedd rhaid aros tan y ddwy gân olaf i brofi mawredd yr uned o bedwar. Byddai unrhyw gerddor Cymraeg yn eiddigeddus o'r gân 'Sgidie i'w llenwi', ac yn wir petai hon yn cael ei chyhoeddi, tybiwn y bydde hi'n boblogaidd dros ben. Er mwyn cryfhau perfformiad y band ymhellach dylid edrych ar atgyfnerthu ei swn lleisiol. Er cystal yw'r prif leisydd, un o wendidau prin y caneuon cynnar yn y set oedd absenoldeb llais cefndir. Pan gyflwynwyd ail lais yn y ddwy gân olaf fe wnaeth tipyn o wahaniaeth i swn y band. Wedi dweud hynny perfformiad Gelert oedd uchafbwynt y cystadlu.*

*Talcen caled oedd dewis rhwng lleisiau unigol a grwp, ond roedd y panel yn unfryd taw Gelert oedd yn haeddu Gwobr goffa Richard a Wyn eleni, ond cystal oedd safon gyffredinol y gystadleuaeth, derbyniodd Danny Sioned wobr arbennig o ysgrif gwreiddiol o 'Pishyn' gan Cleif Harpwood, a chyflwynwyd tocyn yr un i 'Wyl Fel'na Mai' i'r tri artist unigol yn gydnabyddiaeth o'u perfformiadau arbennig.*

Cafwyd perfformiad cyffrous, llawn egni gan Mei Gwynedd a'r band i gloi'r noson a dathlu dydd Miwsig Cymru. Diolch yn arbennig i bwyllgor Gŵyl Fel 'Na Mai am drefnu'r noson ac i'r holl noddwyr sef Menter Iaith Sir Benfro, Cwmni Cware ac Olew Trefigin, Awen Teifi, Cleif Harpwood a Merch Megan am sicrhau noson lwyddiannus.